


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd

# Canllaw Sut i Lenwi'r

# Cais Llawn

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 LIC 45223 ISBN Digidol:

Tudalen Hafan ........................................................................................ 3
Tudalen Ceisiadau a Hawliadau ........................................................................ 4

Cyflwyniad........................................................................................ 6
Hysbysiad Preifatrwydd ........................................................................ 6
Ar ôl darllen yr wybodaeth, cliciwch ar Nesaf. .................................................. 7
Manylion y Busnes/Corff ........................................................................ 7
Golwg Gyffredinol ar y Prosiect................................................................ 8
Cynllun y Busnes/Prosiect ........................................................................ 9
1 Ffit strategol ........................................................................ 9
3 Cyflawni - y Prosiect Cyflawni ........................................................ 12
5 Cynaliadwyedd Tymor Hir ............................................................ 14
6 Rheoli'r Prosiect........................................................................ 15
7 Gwerth am arian........................................................................ 15
8 Themâu trawsbynciol ................................................................ 17
9 Dangosyddion a chanlyniadau ........................................................ 18
10 Ariannol a chydymffurfiaeth ........................................................ 19
Dogfennau Ategol ........................................................................ 19
Tudalen Gyflwyno - Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb ........................ 20
Tudalen Gyflwyno - Datganiadau ac Ymrwymiadau ............................................ 20
Tudalen Gyflwyno ........................................................................ 21

RPW Ar-lein ........................................................................ 23
Ymholiadau - y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ................................................ 23

## Cofrestru ar gyfer RPW Ar-lein

I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, rhaid i chi lenwi'r ffurflen gofrestru ar-lein. I gael mwy o fanylion, darllenwch y canllawiau ar sut i gofrestru . Os oes angen newid manylion eich busnes, gallwch newid y rhan fwyaf ohonyn nhw ar-lein. Ond, efallai y bydd angen mwy o fanylion ar Lywodraeth Cymru ar gyfer newidiadau mawr. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

## Y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd - Canllaw Sut i Lenwi'r Cais Llawn

Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn rhoi cymorth cam wrth gam i chi i lenwi ffurflen gais lawn y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd.


Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi'r canllaw hwn yn Gymraeg ac yn Saesneg fel y mae gofyn iddi ei wneud dan Gynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu gweld ein gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

## Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein

**Tudalen Hafan**

Mewngofnodwch i'ch Cyfrif RPW Ar-lein – nodwch eich Rhif Defnyddiwr a'ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.





Os ydych yn cael trafferth neu'n ei chael hi'n anodd mynd i'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Ar ôl mewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein fe welwch dudalen 'Hafan' RPW Ar-lein.

Er mwyn gweld ffurflen gais lawn y Cynllun Sbarduno Busnesau Bach, sgroliwch i lawr i'r adran 'Dechrau Ffurflen' a'i dewis o'r fan honno

Bydd yn dangos y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'ch cais llawn a'r dystiolaeth ategol. Ni fydd y ffurflen ar gael i chi ar ôl y dyddiad hwn.





Neu gallwch glicio ar y tab '**Ffurflenni**' ar dudalen hafan RPW Ar-lein a'i dewis o'r fan honno, fel y gwelwch isod.




Bydd hynny'n mynd â chi at y dudalen 'Ffurflenni'.
I newid yr iaith unrhyw adeg, cliciwch ar y botwm **Cymraeg / English** ar ochr dde ucha'r sgrin. Gallwch ei ddefnyddio i ddewis yr iaith y gwelwch Ffurflen Gais y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd ynddi.

### Tudalen Ceisiadau a Hawliadau


Ar ôl clicio ar y tab 'Ffurflenni', fe welwch y ffurflenni sydd ar gael i chi eu llenwi.





Sgroliwch i lawr y dudalen i ddewis ffurflen gais lawn y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd.

## Cais Llawn y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd – Dechrau Arni


Ar ôl darllen Llyfryn Rheolau'r Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd yn Grantiau a Thaliadau Gwledig, cliciwch y botwm '**Dechrau'** i ddechrau llenwi'ch ffurflen gais.







## Cyflwyniad

Dyma dudalen y cyflwyniad sy'n rhoi gwybodaeth am y cynllun. Am fwy o fanylion, cliciwch ar y dolenni.





Ar ôl darllen yr wybodaeth, cliciwch ar **Nesaf**.




## Hysbysiad Preifatrwydd


Rhaid darllen yr Hysbysiad Preifatrwydd.





Ar ôl darllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.

## Manylion y Busnes/Corff

Bydd enw’r Ymgeisydd/Busnes, Statws y Busnes/Corff, Rhif y Cwmni, Rhif TAW, Rhif Elusen (os oes un) a Maint y Busnes y byddwch wedi’u nodi yn eich Datganiad o Ddiddordeb yn cael eu dangos yma. Rhaid ateb y cwestiynau sydd wedi’u marcio â * cyn bwrw ymlaen â gweddill y cais.








Ar ôl cadarnhau bod yr wybodaeth yn gywir ac ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**

## Trosolwg o'r Prosiect

Ar y dudalen hon, mae gofyn i chi roi disgrifiad o'r prosiect. Dylai fod yn esboniad byr o'r hyn y bydd y prosiect yn ei wneud. Os ydych wedi nodi lleoliad y prosiect, manylion cyswllt a dyddiadau dechrau/gorffen y prosiect ar y ffurflen Datgan Diddordeb, byddan nhw'n cael eu dangos yma. Gallwch eu newid os oes angen.

Rhaid ateb cwestiynau sydd wedi'u marcio â *.







Ar ôl llenwi’r manylion i gyd, cliciwch **Nesaf** i fynd yn eich blaen.

## Cynllun y Busnes/Prosiect


### 1 Ffit strategol

Ar y dudalen hon, mae blwch ar gyfer meini prawf y Cynllun, i chi gael esbonio sut y bydd eich buddsoddiad yn cyfrannu at amcanion a nodau strategol y Cynllun. Y meini prawf yw:


Twf bob blwyddyn – bydd gwerth trosiant sector bwyd a diod Cymru yn tyfu o’i chymharu â’i maint yn fwy na gweddill y DU, ac i o leiaf £8.5bn erbyn 2025.





Cynhyrchiant – Bydd cyfartaledd tair blynedd Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) yr awr a weithir yn y diwydiant yn cynyddu o’i chymharu â’i maint yn fwy na gweddill y DU.





Gwaith teg bob blwyddyn - bydd cyfran gweithwyr y sector bwyd a diod sy'n ennill o leiaf Cyflog Byw Cymru yn cynyddu, i gyrraedd 80% erbyn 2025.




Achrediad bob blwyddyn - bydd cynnydd yng nghyfran y busnesau gweithgynhyrchu yn y diwydiant sydd wedi cael eu hachredu (e.e. rheoli amgylcheddol, datblygu staff, cynhyrchu a safonau perthnasol eraill).





Hylendid - bydd gan 98% o fusnesau sgôr hylendid bwyd o 5 erbyn 2025.






Ar ôl ateb pob cwestiwn, cliciwch y botwm **Nesaf.**


## 2 Addasrwydd y buddsoddiad


Mae 5 cwestiwn gwahanol ar y dudalen hon. Bydd angen i chi ateb y cwestiynau isod a dangos tystiolaeth/cadarnhad annibynnol gan randdeiliaid allweddol i gefnogi’ch atebion i bob cwestiwn.







Ar ôl ateb pob cwestiwn, cliciwch y botwm **Nesaf** i fynd yn eich blaen.

## 3 Cyflawni – Cyflawni’r Prosiect

Ar dudalen Cyflawni – y Prosiect Cyflawni, byddwch yn disgrifio cynllun o’r gwaith y mae’r busnes/corff yn bwriadu ei wneud. Bydd angen i chi ddisgrifio sut yr ydych am gyflawni’ch prosiect. Pa adnoddau fydd eu hangen arnoch chi wrth i chi ei roi ar waith a phwy fydd yn rheoli’r gwaith?

Dyma’r prif elfennau y dylech eu cynnwys:


- Pam mae angen y prosiect
- Beth ydych chi’n bwriadu ei wneud
- Sut ydych chi’n bwriadu ei wneud
- Ble ydych chi’n bwriadu ei wneud
- Beth sydd angen i chi ei drefnu neu ei wneud i allu cynnal y prosiect
- Sut ydych chi am gynnal y broses gaffael a thendro



Ar ôl esbonio sut ydych am gyflawni'ch prosiect, bydd angen i lunio cynllun / amserlen o brif weithgareddau a buddsoddiadau'ch prosiect. Dylech nodi amserlen pob cam.

Bydd angen i chi ychwanegu manylion pob cam o'r prosiect yn yr adran am weithgareddau'r prosiect.

Cliciwch y botwm **Ychwanegu Gweithgaredd** ac fe welwch y dudalen hon.




Nodwch enw'r Gweithgaredd a rhoi disgrifiad ohono. I nodi'r dyddiadau dechrau a gorffen, cliciwch ar fotymau'r calendr.  I ychwanegu eitem arall, cliciwch ar y botwm **Safio ac Ychwanegu Un Arall.** Gallwch ychwanegu faint a fynnoch o weithgareddau eraill.

Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Clicio a Dychwelyd**.

Pan fyddwch yn fodlon eich bod wedi ateb y cwestiynau i gyd, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**

## 4 Cyflawni – Risg a Rheoli Risg


Ar y dudalen hon, bydd angen i chi ddisgrifio’r risgiau all rhwystro’ch prosiect rhag llwyddo, waeth pa mor annhebygol y bydd hynny.  Mae’n bwysig nodi’r risgiau posibl er mwyn i chi allu rheoli’ch prosiect. Mae 2 flwch – yn y cyntaf bydd angen i chi nodi manylion y prif risgiau allai effeithio ar eich prosiect a sut y byddwch yn mynd i’r afael â nhw. Yn y blwch nesaf, disgrifiwch yr arbenigeddau rheoli sydd gennych i gynnal y prosiect yn unol â’r cynllun a’r amserlen.




Ar ôl ateb pob cwestiwn, cliciwch y botwm **Nesaf** i fynd yn eich blaen.

## 5 Cynaliadwyedd Hirdymor


Ar y dudalen hon, bydd angen i chi esbonio beth fydd effaith y buddsoddiad ar gynaliadwyedd ariannol tymor hir y busnes.




Ar ôl ateb pob cwestiwn, cliciwch y botwm **Nesaf**.

## 6 Rheoli’r Prosiect

Ar y dudalen hon, mae 2 flwch. Yn y naill, bydd gofyn i chi disgrifio gallu’r busnes i gynnal y Prosiect yn llwyddiannus. Yn yr ail flwch, bydd angen i chi esbonio wrthym hanes y tîm rheoli, pwy fydd yn gyfrifol am gynnal y Prosiect a sut y caiff y gwaith ei reoli.





Ar ôl ateb pob cwestiwn, cliciwch y botwm **Nesaf** i fynd yn eich blaen.


## 7 Gwerth am arian

Ar y dudalen hon, mae 3 blwch:


- yn gyntaf, bydd angen i chi esbonio sut y cyfrifoch chi gyfanswm costau’r prosiect trwy ddangos manylion holl elfennau’r gwariant arfaethedig





- yn ail, dangoswch yr effaith rydych yn ei rhagweld ar drosiant ac ar eich gallu i wneud elw o fewn tair blynedd ar ôl cwblhau’r prosiect, gan esbonio’ch rhagdybiaethau.




- yn drydydd, rhowch fanylion pob eitem buddsoddi, ynghyd â dyfynbrisiau. Ar gyfer pob eitem, cliciwch **'Ychwanegu eitem buddsoddi'** ac yn dewiswch yr eitem dan sylw.



Ar ôl ychwanegu eitem, bydd angen i chi nodi dyfynbris. Cliciwch ar **‘Ychwanegu Dyfynbris’** ac atebwch y cwestiynau sydd ar y sgrin.




Os oes mwy na 15% o wahaniaeth rhwng cyfanswm costau’r prosiect a’ch amcangyfrif yn y Datganiad o Ddiddordeb, bydd blwch arall yn agor i chi gael esbonio pam.






Ar ôl rhoi’ch atebion, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**

## 8 Themâu trawsbynciol


Ar y dudalen hon mae 3 blwch i chi roi tystiolaeth sut y bydd y prosiect yn cyfrannu at y themâu trawsbynciol canlynol:

- Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd;
- Mynd i’r Afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol;
- Y Gymraeg.







Ar ôl i chi roi'ch atebion, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




## 9 Dangosyddion a chanlyniadau


Bydd angen i chi lenwi'r Dangosyddion a'r Canlyniadau isod. Bydd angen i chi roi manylion o leiaf un dangosydd o bob adran. Dewiswch nhw trwy glicio ar y blwch priodol. Bydd angen rhoi gwerth i bob dangosydd a ddewisir, a disgrifiad byr o sut y byddwch yn ei gyflawni ac yn monitro hynny.



Ar ôl i chi roi’ch atebion, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.

## 10 Ariannol a chydymffurfiaeth


Mae’r cynllun yn cynnig grant o hyd at werth 40% o gost y buddsoddiad. Y grant mwyaf y gellir ei roi yw £5,000,000. Mae 2 flwch i chi eu llenwi. Mae’r cyntaf i chi esbonio sut y caiff y Prosiect ei ariannu, ar ben unrhyw grant a gewch. Defnyddiwch dystiolaeth i gefnogi’ch cais. Yn yr ail flwch, esboniwch pam mae angen y grant? Beth fyddai’n digwydd hebddo?




Ar ôl i chi ateb y cwestiynau i gyd, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.

### Dogfennau Ategol

Mae’r dudalen nesaf yn rhoi rhestr lawn o’r dogfennau ategol y byddwn yn disgwyl i chi eu cyflwyno i ni.




Rhaid i chi lanlwytho’r holl ddogfennau ategol yn syth ar ôl cyflwyno’ch cais llawn ac erbyn y dyddiad cau.

Ar ôl darllen y dudalen hon, cliciwch ar **Nesaf**.

**Tudalen Gyflwyno - Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb**


Mae’r adran hon yn rhoi crynodeb o’r wybodaeth rydych wedi’i chyflwyno gan gynnwys yr eitemau yr ydych wedi’u dewis ac yn dweud wrthych am unrhyw wallau sydd yn eich cais neu negeseuon gwybodaeth sydd wedi’u cysylltu wrtho.




Ar ôl darllen y crynodeb ac os oes angen, ar ôl cywiro gwallau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.

**Tudalen Gyflwyno - Datganiadau ac Ymrwymiadau**


Rhaid i chi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a **thicio’r** blwch i gadarnhau eich bod wedi eu darllen ac yn cytuno â nhw.



Ar ôl darllen y Datganiadau a’r Ymrwymiadau a chytuno â nhw, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.

## Tudalen Gyflwyno

I gyflwyno Cais Llawn y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd, cliciwch ar y botwm **Cyflwyno**



Ar ôl cyflwyno’r cais, fe welwch sgrin gadarnhau.



Ar ôl cyflwyno’r Cais Llawn, chewch chi ddim newid eich ffurflen gan gynnwys yr eitemau rydych wedi’u dewis.

## Ar ôl cyflwyno’r Cais yn llwyddiannus

Bydd crynodeb o'ch Cais Llawn i’r Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd yn cael ei ychwanegu at dudalen 'Negeseuon' eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl **Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru**. Gofalwch fod yr wybodaeth arno’n gywir. Os oes gwybodaeth yn anghywir, anfonwch ateb i'r Neges yn esbonio beth sy’n bod. Gwnewch hyn cyn gynted ag y medrwch ar ôl gweld yr wybodaeth anghywir.

Rhaid i chi lanlwytho’r holl dystiolaeth ategol erbyn y dyddiad cau yn yr un neges **Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru**. Gallai peidio â gwneud hyn arwain at wrthod eich cais.
Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu gweld ein gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

**Mae dau ganlyniad posibl i asesiad o gais llawn:**

1. Nid yw eich prosiect yn gymwys ac nid yw wedi’i gymeradwyo am grant. Byddwn yn rhoi gwybod i chi ar eich cyfrif RPW Ar-lein y rhesymau pam nad yw’ch cais wedi bod yn llwyddiannus. Gallwch wneud cais gyda’r un prosiect eto os bydd cyfnodau ymgeisio eraill yn y dyfodol (gan ddiwygio’r cais os ydych yn dymuno) ond dim ond os nad ydych wedi dechrau ar y gweithgaredd y gwnaethoch gais amdano.

2. Mae eich prosiect yn gymwys ac mae’n cael ei gymeradwyo am grant. Bydd contract yn cael ei gyflwyno i chi trwy eich cyfrif RPW Ar-lein gan nodi telerau ac amodau’r grant. Gofynnir i chi ei dderbyn o fewn 30 niwrnod i ddangos eich bod yn cytuno â’r amodau a’r telerau hynny. Bydd y contract yn rhoi’r awdurdod i chi ddechrau ar y gwaith. Bydd angen i chi dderbyn neu wrthod y contract a gynigir i chi o fewn 30 diwrnod. Os na fyddwch wedi derbyn y contract o fewn y 30 niwrnod, caiff y contract ei dynnu’n ôl.

## Cysylltiadau

### RPW Ar-lein

Gallwch fynd at wasanaethau RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth yn www.gateway.gov.uk, neu ar ôl i chi gofrestru ar gyfer gwasanaethau RPW Ar-lein, ewch i www.llyw.cym/RPWArlein.  Os nad ydych wedi cofrestru eto gydag RPW Ar-lein, ewch i wefan Llywodraeth Cymru am wybodaeth ynghylch sut i gofrestru neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

### Ymholiadau - y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer eich holl ymholiadau, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW. Gallwch ofyn cwestiwn unrhyw bryd ar RPW Ar-lein.

## Mynediad i swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych anghenion arbennig a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn ateb y gofynion, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i gael swyddogion Llywodraeth Cymru wneud trefniadau addas ar eich cyfer.

## Gwefan Llywodraeth Cymru

I weld yr wybodaeth ddiweddaraf am amaethyddiaeth a materion gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru. Bydd cyfle i chi gofrestru arni am y daflen e-newyddion, Gwlad

© Hawlfraint y Goron 2018 ISBN Digidol: 978-1-78937-998-3
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.